***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, ATODLEN. (See end of Document for details)*

# ATODLEN

*(Adran 21)*

## HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

### RHAN 1

### Y WEITHDREFN AR GYFER HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

1 Caiff hysbysiad cosb benodedig gynnig cyfle i berson dalu cosb o £200 (“y gosb”) o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad cosb.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** Atod. para. 1 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(l)**

2 Caiff hysbysiad cosb benodedig gynnig cyfle hefyd i berson dalu cosb is o £150 (“y gosb ostyngol”) os telir o fewn cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y bydd yr hysbysiad cosb wedi ei roi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I4** Atod. para. 2 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(l)**

3 Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi swm gwahanol ar gyfer y gosb neu’r gosb ostyngol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I6** Atod. para. 3 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(l)**

4 Caniateir i’r gosb neu’r gosb ostyngol gael ei thalu drwy bostio llythyr sy’n cynnwys swm y gosb at y person a ddisgrifir ar yr hysbysiad yn y cyfeiriad a ddisgrifir felly. Bernir y bydd y taliad wedi ei wneud ar yr amser y byddai’r llythyr wedi cael ei ddosbarthu yn nhrefn arferol y post.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I8** Atod. para. 4 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(l)**

5 Nid yw paragraff 4 yn atal y gosb rhag cael ei thalu drwy unrhyw ddull arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Atod. para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I10** Atod. para. 5 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(l)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, ATODLEN. (See end of Document for details)*

6 Os yw awdurdod bwyd o'r farn na ddylai hysbysiad cosb benodedig fod wedi ei roi i berson gan swyddog awdurdodedig sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod bwyd, rhaid i'r awdurdod bwyd roi hysbysiad i'r person hwnnw ei fod yn tynnu'r hysbysiad cosb benodedig yn ôl.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Atod. para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I12** Atod. para. 6 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(l)**

7 Os caiff hysbysiad cosb benodedig ei dynnu'n ôl—

(a) rhaid i awdurdod bwyd ad-dalu unrhyw swm sydd wedi ei dalu fel cosb yn unol â'r hysbysiad cosb benodedig, a

(b) ni chaniateir dwyn unrhyw achos na pharhau ag unrhyw achos yn erbyn y person a gafodd yr hysbysiad ar gyfer y drosedd sydd o dan sylw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I14** Atod. para. 7 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(l)**

8 Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—

(a) sy'n cymryd arni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran prif swyddog cyllid awdurdod bwyd, a

(b) sy'n datgan bod taliad cosb wedi dod i law neu heb ddod i law erbyn dyddiad a bennwyd yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatganwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Atod. para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I16** Atod. para. 8 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(l)**

## RHAN 2

### FFURF A CHYNNWYS HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

9 Rhaid i hysbysiad cosb benodedig roi y manylion am yr amgylchiad, yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd, sy'n angenrheidiol i esbonio pam mae trosedd wedi digwydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Atod. para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I18** Atod. para. 9 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(l)**

10 Rhaid i hysbysiad cosb benodedig ddatgan hefyd—

(a) enw a chyfeiriad yr awdurdod yr oedd y swyddog awdurdodedig yn gweithredu ar ei ran pan roddodd y swyddog yr hysbysiad;

(b) swm y gosb a'r cyfnod ar gyfer talu'r gosb;

(c) swm y gosb ostyngol a'r cyfnod y mae'r gostyngiad yn gymwys iddo;

(d) canlyniadau peidio â thalu'r gosb cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r gosb;

(e) y person y caniateir i'r gosb neu'r gosb ostyngol gael ei thalu iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir ei thalu;

(f) drwy ba ddull y caniateir talu;

(g) y person y caniateir i unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r hysbysiad gael eu cyflwyno iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir eu cyflwyno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. para. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I20** Atod. para. 10 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(l)**

11 Rhaid i hysbysiad cosb benodedig hefyd—

(a) hysbysu'r person y mae wedi ei roi iddo am ei hawl i sefyll prawf am y drosedd honedig, a

(b) esbonio sut y caniateir i'r hawl honno gael ei harfer.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Atod. para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I22** Atod. para. 11 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(l)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, ATODLEN.